# Ymgynghoriad cyhoeddus ar Wasanaethau Dwyieithog cyn y broses ddeddfu

## Tystiolaeth gan Urdd Gobaith Cymru

Annwyl Gyfaill

Ysgrifennaf ar ran Urdd Gobaith Cymru i ymateb i'r ymgynhoriad.

Rydym yn croesawu'r bwriad i ddeddfu ar y Gymraeg yn y Cynulliad Cenedlaethol drwy addasu Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn ein barn ni,

(i) Dylai'r Cofnod o drafodion y cyfarfodydd llawn fod yn ddwyieithog, a dylai'r Ddeddf ei hun nodi yn eglur y bydd hynny'n digwydd. Credwn bod hwn yn fater o sicrhau statws i'r Gymraeg.

(ii) Dylid ehangu'r Bil a'r Cynllun y tu hwnt i "wasanaethau" yn unig.

(iv) Dylid cael nod o sicrhau bod pawb sy'n gweithio i'r Cynulliad ac sy'n gallu siarad Cymraeg yn gallu defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith bob dydd yn y Cynulliad.

(v) Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu, mae angen targedau eglur y bydd modd eu mesur dros gyfnod o amser.

Diolch yn fawr

Efa Gruffudd Jones